

Siop Lyfrau'r Hen Bost

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3AA
Ffôn: (01766) 831802

e-bost: Dafydd@hen-bost-books.freeserve.co.uk

Llyfrau newydd, ail-law a hynafiaethol

1. Owen A. Ll.: Hanes Methodistiaeth yn Nosbarth Treffynon, 1910	5.50	24. Rees, T. Mardy: Mynachdai Cymru, 1910.	10.00
2. Jenkins, Geraint H.: Thomas Jones yr Almanaciwr, 1980	5.00	25. Halliday, E.G.: Llandaff Church Plate, 1901.	25.00
3. Williams, J.E. Caerwyn (gol.): Ysgrifau Beirniadol 1, 1965	10.00	26. Hyde Hall, Edmund: A Description of Caernarvonshire, 1952.	35.00
4. Lewis, Saunders: Merch Gwern Hywel, 1966.	5.00	27. Roberts, Gomer M.: Hanes Plwyf Llandybie, 1939.	17.00
5. Roberts, Alan Lloyd: Anghenion y Gynganedd, 1973.	4.50	28. Rees, T. Ifor (cyf): Taith o Amgylch fy Ystafell, arg.Cyf.Mecsico, 1944.	10.00
6. Cybi: Beirdd Gwerin Eifion a'u Gwaith, 1914.	5.00		
7. Evans, D. Simon: A Grammar of the Middle Welsh, 1976.	5.50		
8. Bassett, T.M.: Bedyddwyr Cymru, 1977, cyflwyniad awdur.	7.00	Mân Lyfrynnau a Phamffledi	
9. Richards, Thomas: Y Ci Defaid ac Englyunion Eraill, 1964.	4.00	29. Nuttall, G.F.: The significance of Trefecca College, 1969, 29tud.	4.00
10. Ashton, C.: Bywyd ac Amserau yr Esgob Morgan, 1891.	7.50	30. Lewis, Saunders: Byd a Betws, 1941. 27tud. llofnod Mathonwy Hughes.	4.50
11. Penardd: Rhai o Hen Ddewiniaid Cymru, 1901, arg. Dirgel o 50 yn unig.	60.00	31. Hanes Llofruddiaeth Tra Gwaedlyd - Elizabeth Bate, 1826, 16tud.	7.00
12. Lloyd, Hugh: Hunangofiant Rybelwr, 1926.	4.50	32. Jones, T. Gwynn: Croes ai Cors, 1915.	5.00
13. Jones, Gwilym G.: Hanes Ysgolion Sul y Methodistiaid Calfinaidd - Cerrigyrdudion, 1958.	5.00	33. Jones, D.J.: Hanes Eglwys Ebeneser Queen Street Wrecsam, 1963, 30tud.	2.50
14. Davies, J.: Bedyddwyr Cymreig Birkenhead, 1908.	8.00	34. Lewis, Saunders: Local Authorities and Welsh Industry, 1934, 11tud.	5.00
15. Timothy, T.E.: Llandrillo yn Rhos a Souvenir, 1910.	8.50	35. Edwards, T. (Llandilo): Lloffion Adgof, 1884. 100tud.	6.50
16. Myrddin Fardd: Gwerin Eiriau Sir Gaernarfon, 1907.	10.00	36. Yr Hen Humphrey Edwards, Llandynan a'i Amserau, 1854. 25tud.	5.00
17. Myrddin Fardd: Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon, dd.	10.50	37. Hanes Hynod am Ymddangosiad Angylion, dd, 16tud.	4.50
18. Davies, W.J.: Hanes Plwyf Llandysul, 1896.	35.00	38. Hughes-Jones, E.: Eglwys yr Annibynwyr, Newmarket, 1941, 15tud.	3.50
19. Jones, T. Gwynn: Detholiad o Ganiadau, Gwasg Gregynog, 1926, llofnod Bob Owen, Croesor.	75.00	39. Derfel R.J.: Rhosyn Meirion, 1853, 64tud.	
20. Williams, D.J. et al: Blewyn o Ddybaco, cyflwyniad D.J.	6.00	40. Can Newydd sef Cwyn Lewis Rees a'i Chwaer Ann, 1854, 4tud.	5.00
21. Fisher, J.: The Welsh calendar, the Festivals - account of the Gwyl Mabsant, 1895.	9.50		
22. Pierce, S.: Hanes Bedyddwyr Penrhyn a'r Cylch, 1914.	9.00		
23. Griffiths, Margaret Enid: Early Vaccination in Welsh, 1937.	15.00		

Codir yn ychwanegol am gludiau

Hanes Plât Arch Bronfair

(Parhad o dudalen 2)

dychwelyd i Bronfair a chael bod y ferch 'wedi codi a pharatoi pryd o fwyd iddynt'. Fe gyfyd dau gwestiwn sef yn gyntaf, beth oedd natur gwaeledd y ferch o Bronfair? - ai anabledd corfforol neu ynteu gyflwr meddyliol ydoedd? Yna, yn ail, paham y codwyd y tŷ - Bronfair, Llanfair - ar gyfer y ferch o Grafnant?

Edrychwn unwaith eto at y cyfeiriad yn Saesneg yn y llyfr *Llanfair is my Dwelling Place* (tudalen 68 - gyda chaniatâd aelodau Sefydliad y Merched Llanfair). Sonir yma am ferch ifanc brydweddol y bu i'r melinydd syrthio mewn cariad â hi a hithau'n ei wrthod. Yna'r Fellieth gyda'r pla ar yr anifeiliaid. Yn dilyn fe geir y cyfeiriad cynnil hwn, 'and even the beautiful daughter became ill'. O ganlyniad ni châi gysgu gartref ac meddir am y tad, 'He built Bronfair for her'. Mae'n drueni onid yw, bod cymaint o hen hanesion wedi mynd i'w colli. Cyfeirir at yr hanesyn hwn o'r llyfr, 'Syrthiodd mellith ar y fferm - methodd y cnydau, y gwartheg yn erthylu eu lloï, a'r moch yn marw ac, yn waeth na dim, aeth y ferch yn wael. Teithiodd y tad i

ymgyngori â "gŵr doeth" o Dde Cymru. Gofynnodd hwnnw os oedd rhywun yn dymuno anlwc iddo. Atebodd yntau, 'Oes, ac mi wn i pwy, ac meddai'r gŵr doeth, 'Paid â dweud gair wrth neb, ond rhaid i ti ladd dy fustach gorau, tynnu ei galon allan a'i llenwi â phinnau, ysgrifennu arni enw y dyn a ddymuna ddrwg i ti ac yna ei chladdu. O hyn ymlaen, rhaid i dy ferch beidio â chysgu yn Crafnant.' Ufuddhaodd y ffermwr, a phob nos byddai'r ferch yn marchogaeth ei cheffyl gwyn i Lanfair i gysgu.

Yn fuan wedyn, ymwelodd y melinydd â'r ffermwr a chrefu arno i dynnu'r felltith oddi arno gan ei fod bron â marw oherwydd poen annioddefol yn ei frest. Tosturiodd y ffermwr ond parhaodd y ferch i gysgu yn Llanfair ac adeiladwyd Bronfair iddi.'

Ond beth, meddech, yw hynt y Plât Arch erbyn hyn? Pan oeddwn yn clirio'r hen gartref yn Glynor, Llanfair fe'i trosglwyddwyd i ofal Mrs Powell, Warden Eglwys Fair. O wybod am ei brwdfrydedd a'i hymlyniad wrth yr Eglwys rwy'n dawe fy meddwl y caiff y Plât Arch loches o'r diwedd o fewn yr adeilad yn rhywle canys yno y mae ei le! Mae cysylltiad hen deulu Crafnant ag Eglwys Llanfair yn wybyddus i ni. Ceir yno gofebion iddynt ar fur yr

Eglwys ac yn eu plith y mae un a gyflwynwyd gan Lowry Owen, Bronfair i goffâu ei rhieni, John ac Elizabeth Owen.

Cawsom agor cil y drws ar gyfnod pur gythryblus gellir tybio yn hanes ein rhan ni o Ardudwy. Ar y naill law caed ofergoeliaeth - os ofergoeliaeth hefyd? Ar y llaw arall roedd yma ymlyniad diysgog wrth Gred ac Eglwys. Nid oedd hynny yn amlycach yn unman nag yng nghyswllt teulu Owen, Crafnant ag Eglwys Fair yn Llanfair dros gyfnod hir o amser.

(Trwy garedigrwydd *Llais Ardudwy*, 285, Mawrth 2001)

ÔL NODYN

Roeddwn yn arbennig o falch o gael darllen yr ysgrif hon, gan Rhiannon Davies Jones, ac iddi gyntuno i'w hail-gyhoeddi yn Y Casglwr. Y mae'n gyfraniad gwir werthfawr. Tybed faint o'r darllenwyr sy'n gwybod am yr arfer o gadw plât arch? A wyddoch am enghreifftiau penodol o blatiau eirch sydd ar gael heddiw? (Y mae enghraifft ar gadw gennyf i, plât arch Salome Parry Jones, chwaer fy nhad, o Ben Plwyf Llangwm, a fu farw yn un ar ddeg mlwydd oed o'r diptheria, 7 Awst 1909) Anfonwch air at y Golygydd, gyda llun, os yn bosibl. Llawer iawn o ddiolch.

Robin Gwynndaf

Y Drych

(Parhad o dudalen 7)

gyfarwydd â'i gwaith bod Mary Morris Mergenthal (sy'n ymwybodol iawn o'i thras Gymreig) yn cyflawni cryn gamp pob mis o'r brif swyddfa yn St. Paul, Minnesota, pan sylweddolir beth ydyw maint y Taleithiau Unedig.

Cyhoeddir y papur yn fisol ar wahân i rifyn dau-fisol Mehefin-Gorffennaf, ac er mai Saesneg yw'r iaith bellach, gydag ambell eithriad prin, fe barheir i roi'r sylw dyladwy i ddigwyddiadau pwysig yn ymwneud â Chymry alltud yr Unol Daleithiau a Chanada gan ofalu'r un pryd fod amryw o ohebwy'r ffyddlon o Gymru yn gwneud yn siŵr bod newyddion o bwys o'r 'hen wlad' hefyd yn cael sylw dyladwy ar y tudalennau.

* * *

(Ar Fedi 20 eleni, ar Radio Cymru, y clywyd gyntaf bod cyfrol ar hanes Y Drych gan Aled Jones a Bill Jones, wedi cael ei chyhoeddi gan Wasg Gomer. Teg yw nodi fod yr ysgrif uchod wedi ei lunio ychydig fisoedd cyn y dyddiad hwnnw. Gwelwyd, hefyd, yn y Western Mail, Hydref 20, fod Mary Morris Mergenthal yn chwilio am brynwr. Os na ddaw rhywun i'r adwy bydd rhaid dod â'r cyhoeddi i ben ddiwedd Rhagfyr. Gol.)